**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adolygiad OFCOM o Ddarlledu Cyhoeddus**

**8 Gorffennaf 2008**

**Rhodri Glyn Thomas , Y Gweinidog dros Dreftadaeth**

Fel yr addewais yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Gorffennaf 2008 , mae copi o ymateb Llywodraeth y Cynulliad i arolwg Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn amgaeedig.

Mae'r ymateb yn amlinellu'r amcanion mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn meddwl dylid llywio datblygiad polisi yn y maes hwn dros y blynyddoedd nesaf. Wythnos nesaf bydd y Pwyllgor sydd wedi bod yn ystyried y materion hyn yn cyhoeddi ei adroddiad. Bydd y Llywodraeth yn ymateb i'r adroddiad hwnnw ar wahân

**ADOLYGIAD OFCOM O DDARLLEDU CYHOEDDUS:**

**YMATEB LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU**

**Cyflwyniad**

1. Mae darlledu cyhoeddus - ar deledu, radio ac ar-lein - yn gwneud cyfraniad pwysig iawn i fywyd diwylliannol, economaidd a gwleidyddol Cymru. Yng Nghymru a ledled gweddill y DU mae'n helpu i ddiffinio ymdeimlad o hunaniaeth ddiwylliannol. Mae hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o hysbysu dinasyddion am wleidyddiaeth a llywodraeth yn lleol ac yn genedlaethol a hyrwyddo eu hymgysylltiad â'r meysydd hynny. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwybodol o'r effaith a gaiff newid technolegol a'r broses o newid i ddigidol ar ddarlledu'n gyffredinol ac ar ddarlledu cyhoeddus yn benodol. Felly, croesawn benderfyniad Ofcom i gynnal ail adolygiad mawr o ddarlledu cyhoeddus.

2.  Ar y cyfan mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi dadansoddiad Ofcom o'r heriau sy'n wynebu teledu ym maes darlledu cyhoeddus a nodwyd yn rhan un o'i adolygiad.  Mae angen i elfennau allweddol o'r seilwaith darlledu cyhoeddus yn y DU - yn enwedig y trefniadau ar gyfer trwydded ITV1 - ddatblygu er mwyn sicrhau bod darlledu cyhoeddus yn parhau i gynnig y manteision sy'n gysylltiedig ag ef y mae wedi'u cynnig hyd yma.  Mae hyn yn adlewyrchu'r pwysau cystadleuol sy'n deillio o'r cynnydd yn nifer y sianelau a'r mathau newydd o gynnwys digidol sy'n dod ar gael. Fodd bynnag, er bod y datblygiadau newydd yn gyffrous mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno nad yw'r mathau newydd o wasanaethau digidol wedi datblygu i'r graddau lle gallant gynnig model darparu amgen effeithiol yn lle'r dulliau traddodiadol o ddarparu cynnwys a ddarlledir o ran dylanwadu ar wylwyr.  Felly, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod angen i'r broses o ddarparu cynnwys darlledu cyhoeddus ar y prif sianelau daearol ar hyn o bryd ddatblygu a chryfhau er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddiogelu buddiannau gwylwyr a dinasyddion Cymru.

3.  Mae ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ystyried y pedwar model amgen a gynigiwyd gan Ofcom ond ni chredwn y dylai ystyriaethau Ofcom nac ystyriaethau'r llywodraeth fod yn gyfyngedig ar y cam hwn o'r adolygiad.  Mae Gweinidogion Cymru wedi nodi mai eu prif flaenoriaeth yw diogelu buddiannau dinasyddion Cymru a'u bod yn barod i ystyried cynigion eraill a fyddai'n cyflawni hyn.  Caiff yr ymateb hwn ei gyflwyno cyn cyhoeddi'r adroddiad gan y pwyllgor ad hoc ar ddarlledu a sefydlwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.  Rydym wedi ei gwneud yn glir y byddwn yn edrych yn ofalus ar argymhellion y pwyllgor, y mae llawer ohonynt yn debygol o gael effaith uniongyrchol ar y materion a ystyrir gan Ofcom fel rhan o'i adolygiad.  Byddwn yn trosglwyddo ein hymateb i adroddiad y Pwyllgor ar gyfer Ofcom pan fydd ar gael.

## Cefndir

4.  Mae cytundeb clymblaid 'Cymru'n Un' yn ymrwymo Llywodraeth Cynulliad Cymru i Lywodraeth sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.  Gwerthfawrogwn ddinasyddiaeth weithredol.  Ond mae angen i ddinasyddion gweithredol allu fanteisio ar gyfryngau newyddion ffyniannus.  Yn draddodiadol mae'r wasg yng Nghymru wedi bod yn wannach nag mewn gwledydd a rhanbarthau eraill yn y DU.  Dim ond pwysleisio pwysigrwydd gwasanaethau newyddion a ddarlledir ac yn arbennig y newyddion teledu a ddarlledir yn Saesneg ar ITV a'r BBC ac yn Gymraeg ar S4C mae hyn wedi'i wneud.

5.  Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ddiddordeb mawr mewn datblygiadau sy'n gysylltiedig â darlledu cyhoeddus.  Er bod gan ddinasyddion fwy o ddewis o ran cyfryngau newyddion erbyn hyn, mae tystiolaeth Ofcom yn awgrymu bod gwylwyr yn dal i gredu bod rhaglenni am y cymunedau maent yn byw ynddynt yn bwysig iawn gan gynnwys darparu gwasanaethau newyddion teledu diduedd. Felly, rydym yn awyddus i sicrhau bod darlledwyr cyhoeddus yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau allweddol hyn yng Nghymru ac yn wir yn eu cryfhau.

6.  Dylai gwylwyr yng Nghymru allu datblygu gwell dealltwriaeth o ddigwyddiadau yng Nghymru drwy'r gwasanaethau newyddion a gynigir ar deledu rhwydwaith ac yn rhanbarthol.  Mae adroddiad diweddar yr Athro Anthony King i Ymddiriedolaeth y BBC yn dangos bod cryn le i wella'r sylw a roddir i lywodraethau datganoledig gan wasanaethau newyddion rhwydwaith.  Croesawn ymrwymiad clir yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod y BBC yn ateb yr her hon.  Credwn fod y dystiolaeth wrthrychol a roddir yn adroddiad yr Athro King yn tynnu sylw at bwysigrwydd parhaus gwasanaethau teledu rhanbarthol effeithiol a dylid ei ystyried yn ffurfiol gan Ofcom wrth iddo ddod â'i adolygiad i ben.

7.  Os yw am gyflawni ei genhadaeth, rhaid i ddarlledu cyhoeddus ddifyrru pobl yn ogystal â'u hysbysu.  Mae drama, rhaglenni ffeithiol a chomedi hefyd yn adlewyrchu'r byd rydym yn byw ynddo.   Un o'r heriau allweddol sy'n wynebu pob darlledwr cyhoeddus yw sicrhau bod ei raglenni yn adlewyrchu amrywiaeth cymunedau ledled y DU yn fwy cyffredinol.  Cred Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylai'r gwaith o ystyried i ba raddau y cyflwynir darlun crwn/cynhwysfawr o fywydau pobl ledled y DU i wylwyr fod yn elfen allweddol o adolygiad Ofcom.

8.  Rhydd teledu ym maes darlledu cyhoeddus fanteision economaidd yn ogystal â manteision diwylliannol.  Mae Cymru yn ffodus bod ganddi sylfaen gynhyrchu annibynnol gref.  Fodd bynnag, nid yw cynhyrchwyr yng Nghymru bob amser wedi cael rhwydd hynt i gomisiynau rhwydwaith.  Credwn fod llwyddiant Dr Who a'r gyfres gysylltiedig wedi tanlinellu faint o dalent sydd ar gael yng Nghymru.  Yr her sy'n wynebu Llywodraeth y Cynulliad a'r diwydiant nawr yw adeiladu ar hyn a sefydlu sylfaen gynhyrchu gynaliadwy.  Felly, byddwn yn parhau i gefnogi'r sector diwydiannau creadigol yn fwy cyffredinol gan gynnwys rhoi cymorth wedi'i dargedu iddo sy'n anelu at unioni methiant y farchnad yn y sector cynhyrchu teledu annibynnol a chreu màs critigol o fusnes cynhyrchu ar gyfer cwmnïau yng Nghymru.

9.  Fodd bynnag, mae angen i'n cefnogaeth i'r diwydiant gael ei hatgyfnerthu gan strwythur rheoliadol cryfach.  Cred Llywodraeth Cynulliad Cymru fod angen amrywiaeth o ganolfannau cynhyrchu a modelau comisiynu arnom er mwyn cyflawni gweledigaeth Ofcom o gynhyrchu cynnwys a ddarlledir o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu amrywiaeth y DU.  Cynigiwn y dylai'r strwythurau rheoliadol ar gyfer darlledu yn y DU ei gwneud yn ofynnol i ddarlledwyr gomisiynu o leiaf 5% (cyfran Cymru o'r boblogaeth) o gomisiynau rhwydwaith o Gymru.  Credwn y bydd atgyfnerthu'r ymrwymiad i amrywiaeth yn elfen allweddol o sicrhau cefnogaeth barhaus y cyhoedd i'r ymyriadau rheoliadol ym marchnad deledu'r DU sy'n anelu at gyflawni manteision darlledu cyhoeddus.

10.  Mae cyswllt anorfod rhwng datblygu darlledu cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol a'r systemau sydd ar gael i ddarlledu cynnwys ar y teledu. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i ddatblygu ein seilwaith cyfathrebu a gwella argaeledd gwasanaethau band eang mewn ardaloedd gwledig.  Rydym hefyd yn ymrwymedig i ddatblygu polisïau yn y maes hwn sy'n cydnabod y cysylltiadau allweddol rhwng datblygu cynnwys a ddarlledir a'r dulliau sydd ar gael o ddarlledu'r cynnwys hwnnw.

11. Croesawn ymdrechion Ofcom i osod yr heriau sy'n wynebu darlledu cyhoeddus mewn cyd-destun sy'n cynnwys y pwysau a grëir gan newid technolegol cyflym.  Tynna sylw at yr angen i unrhyw fodelau sy'n deillio o'r adolygiad presennol fod yn ddigon hyblyg i ymateb i'r newidiadau mwy sylweddol o hyd y gallwn ddisgwyl iddynt effeithio ar ddarlledu yn ystod y broses o newid i ddigidol a thu hwnt.

## Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru

12. Cred Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylai polisi'r llywodraeth yn y maes hwn ganolbwyntio ar sicrhau bod darlledu cyhoeddus digidol ar ôl i'r broses o newid ddod i ben barhau i wneud y cyfraniad diwylliannol, economaidd a gwleidyddol y mae darlledu cyhoeddus wedi'i wneud yn y byd analog.  Gan ystyried y nod hwn, argymhellwn y dylai'r elfennau polisi allweddol canlynol gael eu cynnwys yn argymhellion Ofcom sy'n rheoli dyfodol darlledu cyhoeddus:

i. **parhau â Ffi'r Drwydded y BBC** - dylai BBC cryf a ariennir gan ffi'r drwydded barhau i fod wrth wraidd darlledu cyhoeddus yn y DU. Mae ffi'r drwydded yn parhau i fod yn ymyriad effeithiol ym marchnad ddarlledu'r DU sy'n cyflawni manteision cyhoeddus sicr.  Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod y dadleuon o blaid ffi'r drwydded yn dod yn llai pwerus ar ôl newid i ddigidol.  Yn wir credwn y

daw'n fwy pwysig yn hytrach nag yn llai pwysig wrth i gystadleuaeth ym maes darlledu gynyddu. Mae'r BBC yn gwneud cyfraniad hollbwysig i sicrhau bod rhaglenni nodedig a chymhellol ar gael i wylwyr ledled y DU. Yn hanfodol, o safbwynt dinasyddion a gwylwyr Cymru, mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o raglenni a gynhyrchir yng Nghymru ac i Gymru. Credwn fod lle i gryfhau cynrychioli Cymru ar y prif rwydweithiau, gan gynnwys rhai'r BBC, ond dylai hynny ddigwydd ar ben lefel y gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd i wylwyr yng Nghymru drwy ffi'r drwydded. Er mwyn sicrhau bod y BBC yn llwyddo i gynrychioli amrywiaeth cynyddol y DU, bydd yn bwysig bod gan y BBC yng Nghymru y lefel angenrheidiol o hunanreolaeth a hyblygrwydd sydd ei hangen arno i adlewyrchu ei rôl fel darlledwr cenedlaethol Cymru. Mae cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r BBC o ran cael ffynhonnell gynaliadwy o gyllid drwy ffi'r drwydded yn cwmpasu'r holl gynnwys a ddarlledir yn Gymraeg ac yn Saesneg.

ii. **lluosogrwydd ym maes newyddion a materion cyfoes** - er bod gwasanaethau'r BBC yn bwysig, byddai Gweinidogion Cymru yn pryderu'n fawr os mai'r BBC oedd unig ddarparwr newyddion a ddarlledir a chynnwys arall sy'n benodol i Gymru. Mae'r dadleuon sydd o blaid sicrhau lluosogrwydd cynnwys a ddarlledir ar lefel y DU hefyd yn gymwys ar lefel darlledu sy'n targedu'r gwledydd yn y DU. Wrth i lywodraethau datganoledig gael mwy o bwerau, daw'r angen i ddinasyddion glywed amrywiaeth o safbwyntiau am y ffordd y defnyddir y pwerau hynny yn fwy pwysig yn hytrach nag yn llai pwysig. Credwn fod hyn yn awgrymu rôl barhaus i ITV yng Nghymru. Dylid parhau â'r gofyniad i ITV ddarlledu cynnwys sy'n benodol i Gymru a rhoi sylw priodol iddo - nid yn unig o ran newyddion a materion cyfoes ond hefyd o ran darpariaeth nad yw'n newyddion. Yn y tymor hwy gallai hefyd fod yn ymarferol ystyried dulliau eraill o gyflwyno cynnwys o'r fath a sianelau eraill ar gyfer gwneud hynny. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw un o'r rhain yn cynnig effaith na chyrhaeddiad ITV1. Felly, cred Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylai'r cynnwys hwn barhau i fod ar gael ar y brif sianel gyhoeddus a lle bynnag y bo'n bosibl yn ystod oriau brig. Dylai'r polisi anelu at sicrhau bod lluosogrwydd darpariaeth darlledu cyhoeddus yn parhau i fod yn un o nodweddion allweddol darlledu yn y gwledydd a wasanaethir gan lywodraethau datganoledig yn y DU.

iii. **cefnogaeth barhaus i S4C** - mae darlledu cyhoeddus wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hyrwyddo'r ieithoedd lleiafrifol a siaredir mewn rhannau gwahanol o'r DU. Mae darlledu yn yr iaith Gymraeg yn arbennig wedi esgor ar amrywiaeth o fanteision cyhoeddus sy'n ategu ac yn atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gymru ddwyieithog. Wrth i'r iaith Gymraeg esblygu i ateb heriau cymdeithas sy'n dod yn fwyfwy byd-eang, bywiog ac amrywiol mae angen i ddarlledu Cymraeg barhau i fod wrth wraidd ein hymrwymiad ehangach i ddarlledu cyhoeddus yng Nghymru. Mae cyllid cyhoeddus S4C wedi'i ddiogelu ond rhydd newid i ddigidol a rhoi'r gorau i'r gwasanaeth analog dwyieithog heriau mawr i incwm masnachol y sianel y mae angen ei adolygu'n rheolaidd. Mae angen i deledu Cymraeg allu datblygu i ateb heriau cydgyfeirio digidol fel sy'n wir am ddarlledu yn Saesneg. Mae lansiad diweddar gwasanaeth plant newydd S4C yn hynod gyffrous a phwysig. Croesawn awgrym Ofcom y dylid ymchwilio i'r cyfle i S4C chwarae rhan hyd yn oed yn gryfach i gefnogi teledu plant mewn ieithoedd eraill.

iv. **sector cynhyrchu cryfach** - cymerwyd camau pwysig yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ddangos bod gan Gymru y dalent gynhyrchu a thechnegol i greu teledu cymhellol o'r radd flaenaf. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd creadigol ac economaidd sy'n gysylltiedig â'r dalent hon, mae angen i gynhyrchu yng Nghymru fod yn fwy cynaliadwy. Dylai hyn gynnwys targedau cynhyrchu sy'n cynnig elfen o sicrwydd o ran gweld y diwydiant yn datblygu. Byddwn yn anelu at sicrhau bod y darlledwyr a'r cynhyrchwyr annibynnol, gyda'i gilydd, o leiaf yn cyfrif am ein cyfran o'r boblogaeth (ychydig dros 5%) o'r prif gomisiynau teledu rhwydwaith. Er mwyn sicrhau'r effaith economaidd fwyaf yn sgîl y datblygiad hwn, bydd yn bwysig bod hyn yn cael ei rannu rhwng y sector cynhyrchu annibynnol a'r hyn a gynhyrchir yn fewnol gan y darlledwyr. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod ganddi ran i'w chwarae i barhau i weithio gyda'r darlledwyr a Skillset er mwyn cefnogi'r sector cynhyrchu annibynnol fel y gall ymateb yn well i'r her hon.

v. **Cymru ar y sgrîn** – Rhaid i Gymru sicrhau ei bod yn fwy na lleoliad ar gyfer gwneud rhaglenni gwych. Rhaid i ddarlledwyr cyhoeddus hefyd adlewyrchu bywydau pobl Cymru. Mae angen i deledu gynrychioli'r wlad - ei chyflawniadau ym myd chwaraeon a diwylliant yn ogystal â newyddion a gwleidyddiaeth. Dylai cynnwys sy'n benodol i Gymru, boed yn ddrama, yn gomedi neu'n genre arall nad yw'n newyddion, fod yn rhan o'r arlwy amrywiol a gynigir i wylwyr ledled y DU, yn yr un modd ag y dylai rhaglenni am weddill y DU barhau i fod yn rhan hanfodol o ddarlledu i wylwyr yng Nghymru. Mae angen sicrhau mai dim ond y dechrau yw Gavin and Stacey o ran cynrychioli Cymru mewn ffordd fwy amlwg a dychmygus ar bob un o'r prif rwydweithiau. Gwahoddwn Ofcom i ystyried y math o strwythurau rheoliadol hyblyg ond effeithiol a fyddai'n gwneud hyn yn bosibl.

vi **Channel 4** – ar ôl newid i ddigidol bydd Channel 4 a'i brand nodedig o ddarlledu cyhoeddus ar gael i holl wylwyr Cymru am y tro cyntaf. Edrychwn ymlaen at weld cynnwys a thalent gynhyrchu Gymreig yn gwneud cyfraniad hyd yn oed yn gryfach i'r agwedd nodedig hon ar ddarlledu cyhoeddus yn y DU. Yn yr un modd â'r darlledwyr cyhoeddus eraill, dylid anelu at sicrhau bod Cymru yn cyfrannu o leiaf ei chyfran o'r boblogaeth o gomisiynau rhwydwaith. Ar y cyd â Channel 4, edrychwn ymlaen at ystyried sut y gellid atgyfnerthu'r datblygiad hanesyddol hwn drwy bartneriaethau creadigol newydd y gallai eu creu gyda sefydliadau yng Nghymru. Ni ddylai'r ffaith bod S4C yn bodoli yng Nghymru olygu nad yw Channel 4 yn rhwymedig i weithio gyda'r sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru fel y gwna gyda gweddill y DU.

vii **darlledu cyffredinol** – hyd yn oed ar ôl newid i ddigidol, ni fydd darllediadau daearol ar gael ledled Cymru. Dim ond gallu derbyn rhai gwasanaethau teledu y bydd nifer o gartrefi yn gallu ei wneud ac mae hynny'n peri pryder. Ceir anawsterau tebyg gyda radio digidol. Dylai gwylwyr a gwrandawyr yng Nghymru allu cael yr amrywiaeth llawn o rwydweithiau cenedlaethol ar deledu a radio. Dylai'r rhwydweithiau sy'n destun y rhwymedigaeth o ran darlledu cyffredinol gynnwys gwasanaethau nodweddiadol Gymreig/Gymraeg megis BBC Cymru, Radio Cymru ac S4C. Er mwyn sicrhau tegwch i'r rhain ochr yn ochr â rhwydweithiau cenedlaethol eraill, dylent hefyd fod yn gysylltiedig â'r un lefel o wasanaethau atodol sydd ar gael ar y prif rwydweithiau. Dylai datblygiadau megis teledu Manylder Uwch a gwasanaethau rhyngweithiol chwarae cymaint o ran mewn gwasanaethau teledu cenedlaethol â'r prif rwydweithiau. Dylai Ofcom ac Ymddiriedolaeth y

BBC gynnwys hyn yn eu cynlluniau yn y dyfodol er mwyn diogelu buddiannau dinasyddion Cymru.

viii. **seilwaith band eang cynhwysfawr** – mae seilwaith cyfathrebu datblygedig yn elfen hanfodol o ddarlledu cyhoeddus a gwasanaethau rhyngweithiol sy'n dod yn rhan fwyfwy prif ffrwd o'r hyn a gynigir gan ddarlledwyr cyhoeddus. Ni fydd dinasyddion Cymru yn gallu manteisio ar bopeth a gynigir gan ddarlledu cyhoeddus oni fydd ganddynt hefyd gysylltiadau band eang cyflym. Gwnawn barhau â'n hymdrechion i sicrhau bod y seilwaith band eang yng Nghymru yn gallu cystadlu â'r hyn sydd ar gael mewn rhannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, mae gan Ofcom ran hanfodol i'w chwarae hefyd i sicrhau ei fod yn goruchwylio seilwaith telathrebu datblygedig y DU. Mae angen strwythuro ymyriadau rheoliadol mewn ffordd sy'n sicrhau bod y datblygiadau technolegol sy'n rhan mor amlwg o ddarlledu a gwasanaethau cysylltiedig yn cynnig yr un manteision neu fanteision posibl ledled y DU.

ix. **llais cryfach i ddinasyddion –** ar ei orau mae darlledu cyhoeddus yn un o'r ffactorau mwyaf pwerus sy'n gallu hyrwyddo dinasyddiaeth dda. Credwn y dylai dyfodol darlledu fod yn fater o bwys i wylwyr a dinasyddion ledled y DU. Byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog Ofcom, gan weithio gydag Ymddiriedolaeth y BBC a'r darlledwyr, i ystyried sut y gallent, gyda'i gilydd, sicrhau bod llais dinasyddion yn cael lle amlwg yn y drafodaeth. Ni ddylai hyn ond ymwneud â dwyn darlledwyr i gyfrif. Dylai fod yn agwedd allweddol ar sicrhau lluosogrwydd ac adlewyrchu buddiannau dinasyddion drwy raglenni lleol a rhaglenni rhwydwaith. Efallai y bydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fwy i'w ddweud am hyn ar ôl iddi gael yr adroddiad gan Bwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol a sefydlwyd i ystyried materion sy'n ymwneud â darlledu yn fanylach.

**Llywodraeth Cynulliad Cymru**
**Gorffennaf 2008**